Ardal Hiraethog – Nodiadau Cyfarfod Rhanddeiliaid a Enwebwyd
15 Hydref 2009

Presennol: Geraint James (GJ) (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg)
Dilwyn Price (DP) (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Ysgol)
Emma Bayliss (EB) (Rheolwraig Cynllun)
Carol Roberts (CR) (Ysgrifenyddes – Gwasanaethau Addysg)
Gareth Thomas (GT) (TJB)
David Batten (DB) (TJB)
Cynan Jones (CJ) (TJB)

Arsylwyr: Cyng W. Edwards
Cyng W. E. Jones

1. Rhagymadrodd

Rhoddodd GT gyflwyniad i'r cyfarfod ac esboniodd beth fyddai'i ei gynnwys gan gynnwys y gweithdy.

2. Cyflwyniadau

Rhoddodd GJ gyflwyniad ar y cynllun hyd yma a datblygiad y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu.

Sesiwn cwestiwn ac ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

C: Beth yw gyrrwr pwysicaf y cynllun?
A: Sicrhau ansawdd a safonau addysgol uchel ymhob ysgol. Fodd bynnag, mae arian yn tanseilio popeth ac mae penderfyniadau yn cael eu seilio ar yr arian sydd ar gael.
S: Beth sy'n dod gyntaf - addysg y plant neu'r gyllideb? Y gyllideb mae'n amlwg neu ni fyddai'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal. Mae Estyn yn pwysleisio gwerth ysgolion bach a sut mae plant ysgolion bach yn llwyddo'n academaidd. Nid yw plant yn cael cymaint o sylw mewn ysgol fawr. Un syniad fyddai symud plant o ysgol fawr i un lai. Mae ysgolion llai yn annog ymdeimlad o berthyn a chymdeithas. Ni ddylid gweld lleoedd gwag fel peth drwg neu byddwn yn dechrau trin plant fel ieir batri. Nid oes dadl addysgol am gael gwared ag ysgolion bach. Yr unig beth mae ardaloedd gwledig yn ei gael o dreth y cyngor yw ysgolion. Trwy symud plant y tu allan i'r ardal, bydd yn cynyddu'r ddibyniaeth ar gludiant a chynyddu problemau amgylcheddol. Dylai'r ymarfer hwn gael ei seilio ar safonau addysgol ac nid arian yn unig.
A: Diolch am eich sylwadau, byddant oll yn cael eu cymryd i ystyriaeth.
C: Methu credu nad yw Gwasanaethau Addysg wedi gwneud unrhyw benderfyniad mewn 18 mis – beth ydych wedi bod yn ei wneud am y 18 mis diwethaf ?
A: Casglu gwybodaeth a thrafod posibiliadau a dewisiadau.
C: Felly nid oes cynllun cadarn ar gyfer Llangwm?
A: Na, nid oes un. Pwrpas y cyfarfodydd hyn yw dod i gyflwyno'r wybodaeth am yr ysgol i chi a chael eich ymateb.
C: Lleoedd gwag – sut mae maint ysgol yn cael ei gyfrifo ?
A: Bydd DP yn esbonio hyn yn ei gyflwyniad.

Rhoddodd DP gyflwyniad ar ddata ysgol benodol, gan gynnwys gwybodaeth am ‘addas i’r pwrpas’ lleoedd gwag a dalgylchoedd. Dywedodd bod lleoedd gwag yn cael eu cyfrifo trwy fformiwla gan y Cynulliad a’r gofod llawr mewn ysgol.

Sesiwn cwestiwn ac ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

S: Gallai poblogaeth Llangwm newid dros y pum mlynedd nesaf.
A: Bu’r rhagamcanion yn gywir hyd o fewn 1% dros y 12 mlynedd diwethaf.
S: Bu gostyngiad yn nifer y disgyblion ac yna codiad yn y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig, bydd hyn yn digwydd yn Llangwm.
A: Mae rhagamcanion yn seiliedig ar nifer disgyblion sy’n mynd trwy’r ysgol.
C: Sut mae rhagamcanion yn cael eu cyfrifo?
A: Esboniwyd ynghylch y cyfartaledd a nifer disgyblion trwy ysgolion.
S: Angen cymryd ystyriaeth o nifer y bobl ifanc yn yr ardal ac a ydynt yn mynd i gael plant. Meddwl y bydd nifer y disgyblion yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf gan fod llawer o gyplau ifanc yn y cylch a fydd yn anfon eu plant i ysgol leol. Meddwl mai dros dro yw’r gostyngiad hwn mewn disgyblion.
A: Derbyn y gallai fod yna ostyngiad ac yna cynnydd. Bydd hyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth a’i drafod a’r rhestr o bobl ifanc rydych wedi’i ddarparu.
S: Yn bresennol mae 30 o bobl ifanc 20 – 30 oed yn y cylch a hynny yn Llangwm yn unig.
S: Rhaid ystyried diffyg tai fforddiadwy yn y cylch hefyd. Mae polisi cynllunio’r sir yn cael effaith ar ardaloedd gwledig a chaffaelrwydd tai y gall pobl ifanc eu fforddio. Ni allwn gael caniatâd cynllunio i adeiladu yn Llangwm ac mae angen ystyried ac ail edrych ar hyn.
A: Mae sylwadau ynghylch materion cynllunio wedi’u hanfon i Gynllunio, a’r Cabinet yn adolygu’r modd mae ceisiadau cynllunio yn cael eu hasesu, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig.
C: Sut mae cost fesul disgybl yn cael ei gyfrifo?
A: Cyllideb pob ysgol wedi’i rannu gan nifer y disgyblion.
S: Gall yr ysgol ganfod ffyrdd o fod yn fwy effeithlon ac arbed arian.
A: Gorfod cyflogi dau athro hyd yn oed os mai ond un plentyn sydd yn yr ysgol. Rhaid cadw mewn cof bod datblygiad cymunedol hefyd yn cael ei ystyried mewn ardaloedd sydd o dan adolygiad dechreuol.
C: Mae’n rhaid bod gennych ryw syniad o’r hyn rydych wedi’i gynllunio ar gyfer Llangwm.
A: Dyna fydd y cam nesaf – cyflwyno dewisiadau ar gyfer ysgolion penodol. Mae’r ddogfen Ardaloedd i’w Hadolygu yn rhoi’r darlun cyfan yn nhermau ffeithiau, ond unwaith y cawn adborth o’r cyfarfodydd hyn, gallwn roi strategaeth ddrafft yn ei gilydd.
S: A chadw at yr ochr ariannol - rydym yn talu treth y cyngor ac yn cael dim yn ôl.
C: Mae llawer o leoedd gwag trwy’r sir, dylid symud plant o ysgolion mawr i ysgolion llai.
A: Ni ellir gorfodi hyn i ddigwydd oherwydd mai dewis y rhieni ydyw.
C: Gallech ddweud am hyn wrth rieni mewn ardaloedd eraill. Dylai plant o Ddinmael fod wedi symud i Langwm.
A: Fe gawsant y dewis
S: Roedd rhieni Dinmael yn meddwl mai Llangwm fyddai’n cau nesaf, felly ni wnaethant symud eu plant yma.

C: Waeth beth sy'n digwydd – rydych yn dweud y bydd newid?
A: Ni ellir cynnal 62 o ysgolion gan fod LlCC yn lleihau'r gyllideb bob blwyddyn. Ceir llai o arian gan LlCC oherwydd bod nifer y disgyblion yn gostwng.
S: Angen gofyn i wleidyddwyr gynyddu'r arian.
A: Mae ein haelodau lleol a gwleidyddwyr yn gwneud hyn ond nid ydym ond wedi cael codiad o 1% eleni oherwydd demograffeg y boblogaeth. Mae LlCC wedi dweud bod yn rhaid i leoedd gwag ostwng ond maent hefyd yn cefnogi ysgolion bach. Mae llai o arian bob blwyddyn yn golygu na allwn wella ysgolion a chyn bo hir ni fydd digon o arian i'w cynnal.

Esboniodd GT y gweithdy – eisiau edrych ar beth sy'n gweithio'n dda a beth ellid ei wella. Penderfynodd pawb nad oedd ganddynt eisiau cymryd rhan yn y gweithdy ond parhau gyda'r sesiwn cwestiwn ac ateb.

3. Sesiwn cwestiwn ac ateb terfynol (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

S: Mae'n amser i Wasanaethau Addysg roi adborth i ni a gadael i ni wybod beth yw eu cynlluniau ar gyfer ein hardal. Mae gennym ofn siarad rhag ofn iddo ein rhoi mewn golau drwg. Os ydych yn mynd i gau'r ysgol oherwydd lleoedd gwag, mae hyn yn mynd i achosi helynt. Byddwch yn onest a dywedwch beth sydd gennych ei eisiau gennym ? Beth yw'r dewisiadau?
A: Unwaith y cawn eich adborth, gallwn ddod yn ôl efo dewisiadau.
S: Angen gwybod beth yw'r dewisiadau nawr gan nad oes gennym eisiau gadael y cyfarfod hwn a meddwl mai'r oll ydym yn ei wneud yw cadw'r status quo.
S: Os bydd yr ysgol yn cau, i ble aiff y plant ? Mae safon yr addysg yn Llangwm mor uchel.
A: Un dewis fyddai ysgol ardal yng Ngherrigydrudion
S: Pam fyddai'n rhaid i ni gyfuno â Cherrigydrudion, rydym yn debycach i Ysbyty Ifan, Penmachno a Phentrefoelas.
A: Dyna pam roedd gennym eisiau gweithdy gan mai dyna'r math o adborth sydd arnom ei angen. (yna esboniwyd ysgol ardal yn fanylach). Byddai'r math yma o ysgol yn darparu arian 21 ganrif.
C: A yw clystyru neu ffederaleiddio'n ddewis fel modd o stopio'r ysgol rhag gorfod cau ?
A: Maent yn ddewisiadau. Mae ffederaleiddio yn golygu un pennaeth, un corff llywodraethol ond cadw safleoedd ar wahân.
S: Mae'r ysgol yn adnodd ardderchog a dylem ddefnyddio'r adeiladau sydd eisoes gennym.
A: Gall ffederaleiddio arwain at gadw'r adeilad ar agor.
C: Beth wnaethoch ei ddysgu o gyfarfodydd blaenorol?
A: Datblygwyd y ddogfen blaenoriaethau allweddol ar sail y cyfarfodydd hynny.
C: A yw'r holl ardaloedd ar gyfer adolygiad dechreuol yn cynnwys rhai gydag ysgolion bach?
A: Na, mae'r ysgolion ar yr arfordir sydd o dan adolygiad dechreuol yn ysgolion mawr.
C: Ymhle y byddwch yn cychwyn gwneud y newidiadau, pa ardaloedd a effeithir gyntaf ?
A: Bydd y cyfarfodydd hyn yn helpu i flaenoriaethu'r ardaloedd hynny a fydd yn cael eu newid yn gyntaf. Mae rhai ardaloedd yn fwy parod i newid.

C: A oes amserlen ar gyfer newid ?

A: Does dim amserlen ar gyfer newid ac ni fydd yn digwydd am y 5-10 mlynedd nesaf.

C: Ar ôl yr hyn rydych wedi'i glywed heno, a ydych yn fwy cefnogol i Langwm?

A: Rhaid cymryd i ystyriaeth yr hyn rydych wedi'i ddweud heno ond methu rhoi barn derfynol. Deall y byddech yn hapus â rhyw fath o gydweithio ond eisiau i'r ysgol aros. Awn â'r syniadau hyn ymlaen ond mae angen cymryd gweddill y sir i ystyriaeth.

C: A fydd LlCC yn rhoi arian i ail wneud hen ysgolion?

A: Gallwn ofyn i LlCC a yw hyn yn bosibl.

S: Angen i'r Cabinet ddeall pwysigrwydd Llangwm

A: Bydd gwerth ysgolion gwledig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac mae llawer o aelodau'r Cabinet o ardaloedd gwledig.

C: Mae cynghorwyr yn dilyn yr hyn ddywed swyddogion wrth wneud penderfyniadau felly ni allwch ddweud mai mater iddynt hwy ydyw.

A: Bydd swyddogion yn cynnig argymhellion a chynigion ond mae'r rhain yn cael eu herio gan Craffu. Mae Bwrdd arall yn bodoli sy'n galluogi swyddogion eraill, yn hytrach na ni edrych ar y manylion a rhoi eu barn cyn cynnig dim i gynghorwyr.

C: Beth fydd eich adborth ar Langwm?

A: Byddwn yn cymryd yr hyn rydych wedi'i ddweud heno a'i gynnwys yn y cynigion. Mae angen edrych ar y sir yn ei chyfanrwydd.

C: Rydych wedi dweud bod amryw ddewisiadau, beth allwn ei wneud nawr yn Llangwm?

A: Gallwch gasglu cymaint o dystiolaeth â phosibl i gefnogi eich achos a'i anfon cyn diwedd Tachwedd.

Diolchodd GT i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad. Cafwyd llawer o wybodaeth bwysig.